Rhys Prichard, 'Yr Hen Ficer', 1579–1644
Clerigwr, emynydd a bardd

Fe anwyd Rhys Prichard yn ôl bob tebyg yn Llanymddyfri, sir Gaerfyrddin, ond ychydig a wyddom am ei hynafiaid. Credid fod ei deulu'n eithaf cefnog gan fod Rice Rees yn ei ragymadrodd i'w argraffiad o *Canwyll y Cymry*, 1841, yn dweud 'bod lle i feddwl bod ei dad yn berchen cryn feddiannau yn y gymdogaeth, ac mai ei enw ydoedd Dafydd ap Richard ap Dafydd ap Rhys ap Dafydd', ond ni ellir cymryd hyn fel ffaith. Y mae'n fwy na thebyg mai yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin y cafodd y Ficer ei addysg gynnar, ysgol a sefydlwyd gan y frenhines Elisabeth I ym 1576.

Fe aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, pan oedd oddeutu deunaw mlwydd oed, ac ar 26 Ebrill 1602 fe'i hordeiniwyd yn offeiriad yn Wytham, Essex. Bu 1603 yn flwyddyn bwysig iddo oherwydd derbyniodd radd BA, ac fe gyflwynwyd iddo ficeriaeth Llanymddyfri gan Anthony Rudd, Esgob Tyddewi. Ym 1613 anrhegwyd ef gan y brenin â rheithoriaeth Llanedi yn esgobaeth Tyddewi, a daliodd y ddwy swydd. Gwnaed ef yn Ganghellor Tyddewi ym mis Medi 1626, ac wedyn yn Ganon.

Cyfansoddodd yr Hen Ficer, fel y gelwid ef, lawer o benillion syml, a chyhoeddwyd ei waith yn *Canwyll y Cymry: Sef Gwaith p Parchedig Mr. Rees Prichard, M.A., gynt Ficer Llanymddyfri*. Yr oedd cynnwys y gyfrol hon eisioes wedi ymddangos mewn pedair rhan, ond bellach fe'i hymgorfforwyd mewn un llyfr. Casgliad o farddoniaeth a phenillion ar wahanol fesurau ydyw, ac nid barddoniaeth uchel-ael mohoni ond barddoniaeth a oedd wedi ei hanelu'n uniongyrchol at werin Cymru. Yr oedd cyflwr ysbrydol a moesol ei gyd-Gymry yn faich mawr ar feddwl Ficer Prichard a
mynegodd hyn yn rhai o'i benillion:

Mae'n anfoes im' draethu
Ein campau ni'r Cymry,
Rhag c'wilydd mynegi
'N hymddygiad i'r byd;
Etto, rhaid meddwl
Y traetha Duw'r cwbwl,
Pan ddelo'r dydd trwbwl i'w trefnyd.

Ei fwriad oedd cyflwyno'r Efengyl Gristnogol a gwirioneddau'r ffydd i'r Cymry mewn ffurf ddealladwy a chofiadwy. Teimlai reidrwydd i bregethu'r Efengyl drwy'r cyfrwng hwn a galwai ar bobl i gredu yn Iesu Grist.

Duw, rho ras a grym i Gymru
'Nabod Duw, a'i wir was'naethu;
Crist a nertho bob rhai 'ddarllain
Llyfyr Duw'n eu hiaith eu hunain.

Nid yn unig y mae yn y llyfr fynegiant o sylfeini'r ffydd, ond y mae yma hefyd gynghorion i ieuenctid, a chyngor ymarferol ynghylch godineb a meddwdod. Y mae rhai penillion yn sôn am fwyta ac yfed, a rhai hyd yn oed i'w hadrodd wrth wisgo ac ymolchi yn y bore. Bu'r penillion yn boblogaidd iawn am gyfnod ac aeth llawer ati i'w dysgu a'u hadrodd. Bu farw Rhys Prichard tua diwedd 1644 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent yr eglwys yn Nhyddewi.